PŴER NIWCLEAR HORIZON NUCLEAR POWER

DYFODOL Ysbrydoli cenhedlaeth



FFUG CV – I'W DDEFNYDDIO AR GYFER HYFFORDDIANT YN UNIG

Dyfan Rhys Stevenson

198 Maes Alaw, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd, LL54 60DP
T: 01286 888829 M: 07989658632 E:mail: dyfanrstevenson@hotmail.com

Proffil Personol

Myfyriwr TGAU brwdfrydig a llawn hunangymhelliant gyda nod gyrfa hirdymor o ddatblygu gyrfa ym maes peirianneg drydanol a mecanyddol mewn gorsaf bŵer niwclear weithredol. Mae fy mrwdfrydedd am beirianneg yn deillio o'r ffaith fy mod yn dod o deulu o beirianwyr ac o'm diddordeb yn y maes niwclear yn sgil dilyn prosiect Horizon. Rwy'n wirioneddol fwynhau dull ymarferol o ddatrys problemau a dysgu am y wybodaeth greiddiol ond gan ei defnyddio wedyn mewn ffordd ymarferol. Rwy'n unigolyn sy'n gallu addasu ac sy'n ffynnu ar ddysgu pethau newydd am beirianneg a'r diwydiant niwclear.

Sgiliau Allweddol

- Gallu defnyddio rhaglenni Microsoft yn iawn (Excel, Word a Powerpoint)
- Sgiliau cyflwyno
- Rheoli amser
- Sgiliau trefnu a chydlynu
- Sgiliau cyfathrebu, ar lafar ac ar bapur
- Datrys problemau
- Gweithio mewn tîm
- Gallu defnyddio cyfarpar peirianyddol amrywiol fel micromedr, turn, sbaneri, gefeiliau etc.

Cyflawniadau

- Fe lwyddais i adnewyddu hen feic o'r 1920au ar fy mhen fy hun. Roedd rhan o'r prosiect hwn yn cynnwys cael gafael ar ddarnau a oedd yn brin iawn ac yn anodd cael gafael arnynt. Ond, gydag amynedd a dyfalbarhad, fe lwyddais i adfer y beic dros gyfnod o ddwy flynedd ac wedyn ei werthu i gasglwr.
- Y llynedd, cefais ddyrchafiad i fod yn gapten fy nhîm pêl-droed lleol. Rwy'n falch iawn o'r llwyddiant yma gan fy mod wedi gorfod gweithio'n galed i ddatblygu fy hyder i arwain a symbylu tîm. Y tymor hwnnw, fe lwyddon ni i ddod i frig ein cynghrair.

Cyflogaeth/Profiad Gwaith

Y Gegin Fach, Penllyn, Caernarfon

Dyddiad cyflogaeth:	Mehefin 2016 hyd yma
Oriau:	Rhan amser, 7 awr yr wythnos
Swydd:	Staff gweini
Prif ddyletswyddau:	Gweithio fel rhan o dîm bach yn darparu gwasanaeth da i gwsmeriaid, cymryd archebion ar gyfer bwyd a diod a delio ag arian
Prif gyflawniad:	Mae tymor yr haf yn brysur iawn a llwyddais i dawelu cwsmer anhapus ar ôl i gymysgwch ddigwydd gyda'i archeb. Gwelais fod aros yn ddigyffro a bod yn gymwynasgar wedi helpu i ddatrys y sefyllfa.

Valley Motors – Profiad Gwaith

Dyddiad y lleoliad:	20 Ebrill 2016
Hyd:	1 wythnos
Profiad a gafwyd:	Cynllunio a blaenoriaethu'r gwaith i'w wneud ar gerbydau. Deall pwysigrwydd pwysedd y teiars i wneud yn siŵr fod cerbyd yn ddiogel Hefyd, des i werthfawrogi iechyd a diogelwch a pham mae'n bwysig cadw'r ardaloedd gweithio yn lân a thaclus.

Addysg

Ysgol Uwchradd Bodedern, Bodedern, Ynys Môn, LL65 3SU

Pynciau	Gradd TGAU neu'r Radd Ddisgwyliedig (2018)
Cymraeg Iaith	B (disgwyliedig)
Cymraeg Llên	B (disgwyliedig)
Gwyddoniaeth Driphlyg (Bioleg, Cemeg a Ffiseg)	B (disgwyliedig)
Mathemateg	A* (disgwyliedig)
Saesneg Iaith	B (disgwyliedig)
Saesneg Llên	B (disgwyliedig)
Peirianneg	BTEC Lefel 2 (wedi cael Rhagoriaeth)
Y Fagloriaeth Cymru CA 4 Tystysgrif Her Sgiliau – Cenedlaethol / Sylfaen.	B (disgwyliedig)
Hanes	B (disgwyliedig)
Addysg Gorfforol	B (disgwyliedig)
Technoleg Gwybodaeth	A (disgwyliedig)
Dylunio a Thechnoleg	B (disgwyliedig)

Diddordebau eraill

- Ar hyn o bryd, rwy'n helpu fy nhad i adnewyddu hen gar mini. Dyma brosiect newydd i ni ac rwy'n mwynhau dysgu am fecaneg cerbyd a sut mae'r injan yn gweithio.
- Rwy'n mwynhau cadw'n heini drwy nofio, seiclo a cherdded fy nghi.

Geirdaon

Ar gael ar gais